# Adroddiad Arolygu ar

**Cwm Gwendraeth**

**Mynydd Mawr Ltd – Cwm Gwendraeth**
**Heol Llannon**
**Tymbl Uchaf**
**Llanelli**
**SA14 6BU**

**This report is also available in English**

**Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

15/12/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Agored Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Cwm Gwendraeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br><br>Oedolion gyda gofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Cwm Gwendraeth Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 59 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nac ydy Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl/plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Mae pobl a'u teuluoedd yn fodlon ar y gofal a chymorth y maent yn eu cael gan staff gwybodus ac wedi'u hyfforddi. Cynigir gweithgareddau i bobl ond maent yn gyfyngedig ar hyn o bryd o ganlyniad i'r pandemig parhaus.

Mae amgylchedd a chynllun y gwasanaeth yn cefnogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl gyda gwaith cynnal a chadw a gwelliannau parhaus yn cael eu gwneud yn gyson. Mae llywodraethu clir ar waith ac mae staff yn teimlo wedi'u cefnogi gan y rheolwyr, yr unigolyn cyfrifol a'r dirprwy unigolyn cyfrifol. Mae prosesau sicrhau ansawdd a gynhelir gan yr unigolyn cyfrifol a'r tîm rheoli yn arddangos y pwysigrwydd a roddir ar fonitro a gwella'r gwasanaeth ar gyfer pobl.

## Llesiant

Caiff pobl eu cefnogi i wneud dewisiadau am eu bywydau o ddydd i ddydd a chaiff hyn ei gofnodi mewn cynlluniau unigol. Mae gan bobl fynediad at ddatganiad o ddiben a chanllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Mae pobl yn cymryd rhan yn y gwasanaeth ac yn mynychu cyfarfodydd un-i-un neu grŵp ac yn teimlo y gwrandewir arnynt. Darperir ar gyfer hoffterau personol ac anghenion deietegol. Dywedodd un unigolyn wrthym, *"Mae'n dda iawn yma."* Dywedodd nyrs wrthym, *"Mae staff gofal yn adnabod y bobl mor dda, maent yn rhagorol."* Dywedodd perthynas, *"Ni allaf eu canmol nhw [y staff] ddigon. Maent yn mynd tu hwnt i'r galw i gadw pethau i fynd, maent yn wych gydag ef ac yn wych gyda mi, maent bob amser yn gofyn sut ydw i."*

Mae pobl yn cael y gofal a chymorth iawn ar yr amser iawn i ddiwallu eu hanghenion. Mae pobl yn cymryd rhan yn adolygu a diweddaru eu cynlluniau. Dywedodd aelod teuluol, *"Maent wedi ymgynghori â mi'r holl ffordd."* Fodd bynnag, ni cheir tystiolaeth o hyn. Mae gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu cynnwys i hyrwyddo iechyd a llesiant pobl.

Mae staff yn cael hyfforddiant priodol ac mae ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth i ddiwallu anghenion unigolion.  Disgrifir yr arweinyddiaeth fel bod yn agored ac yn gynorthwyol a dywedodd un gweithiwr wrthym, *"Mae'n agwedd gallu gwneud nid methu gwneud. Dydw i byth yn cael fy meirniadu, ac maent yn gofyn 'Beth allwn ni ei wneud i helpu?' bob amser."*

Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n eu hamddiffyn rhag niwed, gydag asesiadau risg a gwiriadau cynnal a chadw cadarn. Mae'r cartref â llawer o le, yn lân ac yn gyfforddus a chaiff pobl eu hannog i roi eitemau personol yn ôl eu dewis yn eu hystafelloedd. Gall pobl ddewis treulio eu hamser yn eu hystafell eu hunain neu gael cwmni eraill mewn mannau cymunol.

## Gofal a Chymorth

Mae’r bobl yn hapus gyda'r gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn. Mae cynlluniau cywir a chyfredol yn arwain staff ar sut i gefnogi pobl orau. Mae uwch aelodau o staff yn cwblhau asesiadau gyda'r unigolyn a'i gynrychiolwyr cyn iddo symud i'r cartref. Gwelsom dystiolaeth dda o weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael eu cynnwys ac mae staff yn cynorthwyo pobl i gael cymorth meddygol arbenigol pan fo angen. Mae pobl yn cymryd rhan wrth adolygu eu cynlluniau i sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu eu hanghenion a bod eu dymuniadau yn cael eu parchu. Caiff aelodau teuluol eu hysbysu o unrhyw newidiadau i anghenion gofal eu perthnasau, ond nid ydynt yn cymryd rhan yn adolygu cynlluniau bob amser. Dywedodd unigolyn sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym, *“Mae'r staff yn dda ac mae'r bwyd yn arbennig, mae'r staff yn hyfryd.”* Mae llythyrau diolch yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth a'r gofal mae pobl yn ei dderbyn, gydag un yn nodi, *“Mae'r staff wedi bod yn anhygoel, maent yn angylion yn fy marn i.”*

Mae mecanweithiau ar waith i ddiogelu pobl rhag y risg o niwed a chamdriniaeth. Mae gan staff wybodaeth a dealltwriaeth dda o ddiogelu, a'r broses o adrodd unrhyw bryderon sydd ganddynt i amddiffyn pobl. Mae awdurdodiadau o dan y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid mewn grym i annog y buddion gorau ar gyfer pobl nad ydynt yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Mae asesiadau risg yn cefnogi unrhyw newidiadau sydd eu hangen i amgylchedd pobl, megis gwlâu ac offer arbenigol y mae eu hangen ar bobl i gynnal eu llesiant.

Mae'r pandemig wedi cael effaith ar weithgareddau grŵp, ac mae gweithgareddau un-i-un unigol wedi disodli'r rhain. Dywedodd unigolyn sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym faint oedd yn gwerthfawrogi ac yn mwynhau cael gwneud ei wallt a'i ewinedd. Mae lefelau staffio digonol ar waith i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, ond byddai gweithwyr gofal ychwanegol yn galluogi mwy o amser un-i-un gyda phobl. Mae gan staff ddealltwriaeth dda o anghenion a hoffterau unigolion, ac maent yn rhyngweithio mewn modd cyfeillgar a digynnwrf.

Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau i reoli'r risg o haint. Mae yna arferion hylendid da drwyddo draw, a gwelsom y staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol cywir ac yn dilyn canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Yr Amgylchedd

Mae'r cartref yn hygyrch, gyda choridorau a drysau llydan, ac mae'r cynllun yn galluogi pobl i symud o gwmpas yn rhydd. Mae ardaloedd gyda golau da ac arwyddion clir yn helpu pobl i ymgyfarwyddo'n annibynnol. Mae gan ystafelloedd gwely lawer o le gyda chyfleusterau en suite a chaiff pobl eu cyflenwi ag offer i gefnogi eu hanghenion iechyd. Mae ystafelloedd ymolchi addasedig gyda'r holl offer ar gael ar gyfer pobl sy'n dewis cael bath. Mae mannau cymunol sy'n gyfforddus a chartrefol yn galluogi pobl i ymlacio a rhyngweithio gyda'i gilydd pe dymunant. Caiff pobl eu hannog i roi eitemau personol yn eu hystafelloedd megis addurniadau, llenni a deunyddiau, lluniau, a dodrefn o'u dewis. Mae'r drysau ffrynt ar bob uned wedi'u hamddiffyn gan fysellbad at ddibenion diogelwch.

Mae'r amgylchedd, sydd wedi'i gynnal yn dda, yn cefnogi llesiant a diogelwch pob unigolyn wrth hyrwyddo eu preifatrwydd ac urddas. Mae gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod systemau mecanyddol a thrydanol yr adeiladau yn ddiogel ac yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Mae rheolwyr yn cymeradwyo pob gwaith cynnal a chadw wedi ei gwblhau. Caiff ansawdd ei asesu drwy archwiliadau cynnal a chadw ychwanegol sy'n cynnwys iechyd a diogelwch, arlwyo, a rheoli heintiau. Mae ystafell ymweld ar gael ac mae pobl yn mwynhau cyfarfod â'u ffrindiau a theulu yn y gerddi.

Mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith drwy gydol y gwasanaeth. Mae yna orsafoedd diheintio drwy gydol y cartref ac mae'r holl staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol. Mae polisi atal a rheoli heintiau cyfredol mewn grym yn unol â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae adroddiadau statudol ar ymweliadau chwarterol yr unigolyn cyfrifol yn cynnwys pobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref. Mae'r adolygiad ansawdd gofal bob chwe mis yn defnyddio gwybodaeth o archwiliadau ac arolygon i asesu a gwella ansawdd y gofal. Mae pobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth yn cadarnhau eu bod yn siarad â'r unigolyn cyfrifol.

Mae'r staff yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth yn y gwasanaeth. Mae'r rheolwr a'r dirprwy yn hygyrch ac yn gefnogol o'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref. Dywedodd un gweithiwr gofal, *"Mae'r rheolwyr yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol. Nid oes gen i unrhyw broblemau, ond maent yno os oes angen i mi siarad â nhw."* Dywedodd nyrs yn y gwasanaeth wrthym, *"Mae'n lle hyfryd i weithio, roeddwn yn teimlo wedi fy nghefnogi o'r diwrnod cyntaf. Ar yr ochr iechyd meddwl, mae yna wastad rywun i ofyn am gyngor."*

Mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol yn cefnogi arferion da ac mae gan staff ddealltwriaeth ddigonol o bolisïau allweddol. Gwnaethant gadarnhau eu bod yn cael cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd, gan gynnwys arfarniadau blynyddol. Dywedodd un gweithiwr gofal wrthym, *"Mae'r hyfforddiant ar-lein yn dda, mae yna gyfleoedd hyfforddiant a chynnydd da."* Roedd trafodaethau â staff yn arddangos dealltwriaeth dda ynghylch diogelu. Gwelsom staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau priodol. Siaradodd aelod teuluol yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth, gan ddweud, *"Mae'r staff bob amser yn barod eu cymwynas ac os oes unrhyw beth yn newid maent yn gadael i mi wybod."*

Mae gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal cyn i weithwyr newydd ddechrau gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon, yr hawl i weithio, a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r rheolwr wedi cofrestru pob aelod o staff ar hyfforddiant diweddaru ac mae'n eu cynorthwyo i'w gwblhau.

Mae recriwtio yn her ond mae niferoedd digonol o staff gofal profiadol yn gweithio ar shifftiau i ddiwallu anghenion pobl. Roedd yn amlwg bod gweithwyr gofal wedi datblygu perthnasau da â phobl ac yn eu deall.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 15/02/2022